CIST GYMUNEDOL CLWYD
Rhif Elusen Gofrestredig 516663
CRITERIA GRANT

Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych [CGGSDd] yn gweinyddu cynllun grantiau "Cist Gymunedol Clwyd" ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol sydd yn gweithredu o fewn y cyn Sir Clwyd.

Mae grantiau hyd at £250 ar gael i fudiadau a grwpiau [sydd yn elusennau cofrestredig neu'n ymgymryd ag amcanion elusennol] sydd yn gweithio gyda:

- Pobl hŷn
- Pobl gydag anableddau corfforol
- Pobl gydag anableddau dysgu
- Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl
- Plant o dan anfantais
- Adnoddau chwarae a hamdden i blant
- Pobl ddi-waith sydd yn ymgymryd â gwaith gwirfoddol
- Cynnal a chadw neuaddau pentref
- Gweithgareddau amgylcheddol
- Gweithgareddau diwylliannol

Grantiau
Mae grantiau o hyd at £250 ar gael i brynu eitemau o offer ac/neu gostau rhedeg.

Mae'r Pwyllgor Grantiau yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn, a hynny er mwyn sicrhau nad oes raid i grwpiau/mudiadau aros yn rhy hir i glywed os ydynt wedi bod yn llwyddiannus gyda'u cais.

Os hoffech unrhyw gymorth pellach neu gyngor ynghylch cyflwyno cais am grant dylech gysylltu â: Cist Gymunedol Clwyd, d/o Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych [CGGSDd], Canolfan Naylor Leyland, Stryd y Ffynnon, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1AF. Rhif ffôn: 01824 702441, Ffacs: 01824 705412, E-bost: office@dvsc.co.uk Gwefan: www.dvsc.co.uk